

# Arolygiad o Garchar Ei Fawrhydi Abertawe



Ymwelodd yr arolygwyr â’r carchar hwn ym mis Chwefror a mis Mawrth 2023.



Roedden ni eisiau gwybod a oedd pethau’n well, yr un fath ynteu’n waeth i garcharorion ers i ni ymweld ddiwethaf yn 2017.



Gwnaethom hyn drwy:

- edrych o gwmpas y carchar
- gofyn i garcharorion a staff lenwi holiadur
- siarad â charcharorion
- siarad â staff a chynorthwywyr
- darllen dogfennau.

# Beth wnaethon ni ei ganfod?



**Roedd carcharorion yn cael eu cadw'n ddiogel.**
Fe wnaethon ni roi 4 allan o 4 i'r carchar am hyn.



**Roedd carcharorion yn cael eu trin yn eithaf da gan staff.**
Fe wnaethon ni roi 3 allan o 4 i'r carchar am hyn.



**Nid oedd gan garcharorion ddigon i'w wneud.**
Fe wnaethon ni roi 2 allan o 4 i'r carchar am hyn.



**Cafodd carcharorion help eithaf da i newid eu hymddygiad a pharatoi ar gyfer cael eu rhyddhau.**
Fe wnaethon ni roi 3 allan o 4 i'r carchar am hyn.

# Beth ddylai'r carchar ei wneud?



Rydyn ni eisiau i'r llywodraethwr ddarllen ein hadroddiad arolygu. Mae'r adroddiad ar gael yn llyfrgell y carchar.

Rydyn ni eisiau i'r llywodraethwr wneud cynllun. Dylai'r cynllun ddweud wrthym sut byddan nhw'n datrys y problemau yng Ngharchar Abertawe ac yn gwneud pethau'n well i garcharorion.

# Beth ydyn ni eisiau ei weld yn digwydd?




Rydyn ni eisiau i garcharorion gael mwy o help pan fyddan nhw’n cyrraedd y carchar am y tro cyntaf.




Rydyn ni eisiau i garcharorion fyw mewn celloedd gyda mwy o le.




Rydyn ni eisiau i garcharorion gael mwy o amser allan o’u celloedd ar benwythnosau.



Rydyn ni eisiau gweld mwy o weithdai i garcharorion.




Rydyn ni eisiau i fwy o garcharorion gael addysg. Rydyn ni eisiau iddyn nhw gael mwy o help mewn dosbarthiadau os bydd angen hynny arnyn nhw.



Rydyn ni eisiau i garcharorion allu siarad â'u gweithiwr allweddol yn amlach.




Rydyn ni eisiau i garcharorion sydd ar wahân gael mwy o amser allan o'r gell a mwy o amser yn yr awyr agored. Rydyn ni eisiau iddyn nhw allu defnyddio'r ffôn.




Rydyn ni eisiau i garcharorion gael mwy o help gyda darllen.

# Beth fyddwn ni'n ei wneud?



Byddwn yn dod yn ôl ymhen dwy neu dair blynedd i weld pa mor dda mae'r carchar yn ei wneud. Byddwn yn ysgrifennu adroddiad i ddweud wrth bobl beth fyddwn ni wedi ei ganfod.



Os oes gennych chi gwestiynau, ysgrifennwch atom:

Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi
3rd Floor
10 South Colonnade
Canary Wharf
Llundain
E14 4PU